



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3SU**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Mae Ysgol Tanygrisiau wedi ei lleoli ger tref Blaenau Ffestiniog yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu cymuned Tanygrisiau.

Ar hyn o bryd, mae 59 o ddisgyblion tair i 11 mlwydd oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys pump o ddisgyblion oed meithrin rhan amser. Bu patrwm o ostyngiad cyson yn y niferoedd ar y gofrestr dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae gan 21% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol, ond yn ostyngiad sylweddol ar ffigyrau blynyddoedd blaenorol. Mae 27% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys 5% o ddisgyblion ar ddatganiad.

Mae 71% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Adeg yr arolygiad, roedd cryn ansefydlogrwydd yn sefyllfa staffio'r ysgol. Roedd y pennaeth ysgol ar absenoldeb salwch ers canol Mawrth 2011 a phennaeth dros dro rhan-amser yn weithredol o ddechrau Ebrill 2011 tan ddiwedd tymor yr haf 2011. Yn ystod yr arolygiad, roedd dau ddsbarth cyfnod allweddol 2 yn cael eu haddysgu gan athrawon llanw. Roedd yr ansicrwydd ynglŷn â rheolaeth yr ysgol ym Medi 2011 yn parhau, a'r ysgol hefyd yn wynebu toriad pellach yn y lefel staffio ar gyfer Medi 2011.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Tanygrisiau yw £3,444 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8,442 ac isafswm o £2,717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 54edd uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Tanygrisiau yn ddigonol oherwydd bod:

- cyflawniadau disgyblion yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dda;
- presenoldeb a safonau ymddygiad yn dda iawn;
- disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at waith ysgol ac at ei gilydd; a
- darpariaeth briodol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6;
- mae gormod o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a'u hoed darllen Cymraeg a Saesneg yn arwyddocaol is na'u hoed cronolegol;
- nid oes cynllunio digon manwl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac i sicrhau her briodol i ddisgyblion o allu uwch; ac
- nid oes cysondeb o ran dangos i ddisgyblion yr hyn sydd angen ei wneud i wella ansawdd eu gwaith.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- yr ansefydlogrwydd ynglŷn â rheolaeth yr ysgol yn amharu ar gyfeiriad strategol yr ysgol a'r gallu i fynd i'r afael â'r agweddau lle mae angen gwelliant;
- rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol heb ei datblygu'n ddigonol;
- dim digon o sylw i feysydd i'w gwella yn adroddiad hunan arfarnu'r ysgol; a'r
- ansicrwydd sy'n parhau am staffio yng nghyfnod allweddol 2.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 wella safonau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2;
- A2 parhau i godi safonau darllen;
- A3 gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gorfforol ac ansawdd yr addysgu, yn enwedig o ran gwahaniaethu ar gyfer anghenion grwpiau o ddisgyblion o wahanol allu mewn dosbarth;
- A4 sicrhau bod cynlluniau gwaith ar draws y cwricwlwm yn dangos yn glir y dilynant yn y medrau;
- A5 gwella asesu ar gyfer dysgu, yn enwedig o ran sicrhau cysondeb ar draws dosbarthiadau a gwella ansawdd y marcio;
- A6 sicrhau sefydlogrwydd ar lefel aweinyddiaeth yr ysgol er mwyn medru pennu cyfeiriad strategol clir; a
- A7 gwella dealltwriaeth y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol a'u gallu i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mewn gwersi, mae disgyblion yn ymroi i'r gweithgareddau dysgu ac yn gyffredinol yn gweithio'n gynhyrchiol gan wneud cynnydd parhaus. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da, ond nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y dylent yn y dosbarthiadau.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac ystyrlon. Mae'r cynnydd yn y gallu i ysgrifennu'n annibynnol yn dda iawn. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall disgyblion saith mlwydd oed ysgrifennu dilyniant o frawddegau i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael gadarn ar atalnodi sylfaenol. Mae'r goreuon yn ysgrifennu'n estynedig, gan ddangos cynnydd da iawn yn y gallu i amrywio'r brawddegau a defnyddio ystod dda o eirfa.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn darllen deunyddiau o her gynyddol ar goedd yn ystyrlon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen wedi gwneud cynnydd clir. Fodd bynnag, mae canlyniadau profion darllen safonol yn dangos gormod o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 â'u hoed darllen yn is na'u hoed cronolegol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn eu geiriau eu hunain i ystod o bwrpasau. At ei gilydd, maent yn defnyddio atalnodi yn gywir ac yn trefnu eu gwaith yn baragraffau. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gwaith ysgrifennu ym mlynnyddoedd 5 a 6 o ran ystod ac ansawdd yr ysgrifennu. Mae diffygion o ran ansawdd cyflwyniad y gwaith a safon llawysgrifen yn nodweddu gwaith lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion.

Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn medru siarad am eu gwaith â hyder cynyddol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yn y gwersi yng nghallu'r disgyblion i gyfrannu'n fwy estynedig ar lafar a chyfnewid syniadau.

Mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn asesiadau diwedd cyfnodau allweddol 1 a 2. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau dros y cyfnod 2008 i 2010 yn cymharu'n ffafriol â rhai ysgolion tebyg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, mewn gwyddoniaeth a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig ysgrifennu a darllen Saesneg, mae canlyniadau'r disgyblion yn 11 oed wedi bod yn is na chyfartaledd y disgyblion yn y teulu o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yng nghyfnod allweddol 1 yn uchel. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau disgyblion yn 11 oed ar y lefel uwch (lefel 5) yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â ffigyrau ysgolion tebyg.

Ac eithrio ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1, mae cyflawniadau'r bechgyn yn yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn cymharu'n ffafriol â rhai'r merched. Mae disgyblion â hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl yn cyflawni'n dda.

Lles: Da

Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n iach. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn falch iawn o'u hysgol a'r gymuned glos sy'n nodwedd ohoni.

Cymera disgyblion ddiddordeb yn eu gwaith ysgol ac maent yn gweithio'n gydwytodol ac yn gytûn yn y gwersi. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn gyfeillgar, ac yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn uchel, yn gyson ymhlith y 25% uchaf o gymharu a disgyblion mewn ysgolion tebyg

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn chwarae rhan weithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o'r angen i fwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn cyfrannu at benderfyniadau ac yn cynrychioli safbwyntiau eu cyd-ddisgyblion yn dda.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at lu o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref gan y disgyblion o'r ardal a'r gymuned leol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol a chytbwys o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r defnydd cyson o'r ardal leol a'i thrigolion yn ennyn diddordeb y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u cynefin yn dda.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o gynlluniau gwaith yr awdurdod lleol yn y cyfnod presennol o ansefydlgorwydd staffio i sirhau bod gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio tymor byr yn ddigon manwl ar gyfer datblygu medrau ac i sicrhau bod y gwaith yn darparu lefel briodol o her i'r ystod o allu yn y dosbarthiadau. Oherwydd amgylchiadau staffio, nid yw profiadau dysgu yn diwallu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn ym mlynedd 5 a 6 gan nad yw'r disgyblion wedi cael gwarsi addysg gorfforol yn ddiweddar.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae profiadau dysgu'n cael eu cyfoethogi gan ymweliadau beirdd ac artistiaid preswyl, ynghyd â chyfleoedd cyson i astudio'r amgylchedd lleol a hanes a llên gwerin yr ardal.

Drwy weithgareddau fel y prosiect lleol ar Afon Barlwyd, mae sylw da i faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Mae cyfleoedd da hefyd i ddisgyblion helpu i ailgylchu deunyddiau gwastraff yn yr ysgol. Cafodd disgyblion cyfnod allweddol dau gyfle buddiol i fynychu cynhadledd leol ar fasnach deg. Mae cyswllt buddiol wedi ei sefydlu ag ysgol yn Abbeylara yn Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am ddinasyddiaeth fydeang wedi ei datblygu'n ddigonol.

Addysgu: Digionol

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae'r berthynas dda rhynddynt a'r disgyblion yn meithrin agweddau cadarnhaol at waith. Manteisia'r athrawon yn dda ar y tîm o gymorthyddion dysgu sy'n rhoi cymorth priodol i ddisgyblion a'u helpu i gwblhau eu tasgau. Ar adegau, nid yw disgyblion yn cael eu hannog yn ddigonol i feddwl yn ddyfnach a chyfrannu'n fwy helaeth, yn enwedig mewn sefyllfa ddosbarth cyfan. Yn gyffredinol, nid yw'r disgwiliadau'n ddigon uchel o ran yr hyn y gall disgyblion o allu uwch ei gyflawni.

Mae athrawon yn rhannu nodau dysgu â'r disgyblion sy'n eu helpu i fesur eu cynnydd eu hunain. Mae targedau a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ond nid yw'r targedau bob amser yn ddigon penodol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon clir o'r hyn sydd angen iddynt eu wneud i wella safon eu gwaith. Mae rhai enghreifftiau o arfer dda yn marcio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae gormod o amrywiaeth yn y marcio o ran rhoi arweiniad i'r disgyblion ar yr hyn i'w wneud i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth i les a diogelwch disgyblion.

Mae gwybodaeth dda gan y staff am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau lles penodol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol, megis seicolegydd addysg, swyddogion cefnogi ymddygiad a'r gwasanaeth iaith a lleferydd. Mae hefyd yn manteisio ar gymorth gan y gwasanaeth iechyd a lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r asiantaethau a'r gwasanaethau yma'n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion yn ôl yr angen i wella eu cyrhaeddiad a'u lles.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol ei holl ddisgyblion yn briodol trwy feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch.

Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u cymuned leol ac yn cyfrannu'n helaeth at wahanol elusennau fel Ymchwil y Galon.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r gynhafiaeth i'r disgyblion hyn yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol. Mae'r adolygiadau cynnydd rheolaidd yn cynnwys ymgynghori'n briodol gyda rhieni a gofalwyr.

Nid yw'r ysgol wedi nodi disgyblion mwy abl a thalentog er mwyn trefnu darpariaeth benodol ar eu cyfer.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sy'n meithrin agweddau cadarnhaol a darparu cyfleoedd cyfartal.

Mae'r adeilad helaeth yn cynnig ddigon o le ac amgylchedd diogel. Gwneir defnydd llawn o'r holl gyfleusterau, yn cynnwys llyfrgell yr ysgol, y neuadd, ardaloedd tu allan, fel yr ardd ysgol a man chwarae awyr agored y cyfnod sylfaen. Mae'r arddangosfeydd diddorol yn cael eu defnyddio'n dda i greu amgylchedd ysgogol drwy arddangos gwaith y disgyblion a'u cyfranogiad yn y gymuned leol.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae adroddiadau manwl ar ddata yn cael eu llunio, sy'n dangos yn glir y tueddiadau dros gyfnod ym mherfformiad yr ysgol. Llwyddwyd i sicrhau patrwm clir o welliant mewn rhai agweddau ar gyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r pennaeth dros dro yn llwyddo'n dda i gynnal yr ysgol a'i gwaith mewn cyfnod o gryn ansefydlogrwydd staffio. Mae cefnogaeth dda wedi ei rhoi i'r athrawon llanw sy'n gyfrifol am ddsbarthiadau cyfnod allweddol 2 ar hyn o bryd. Lluniwyd adolygiad cynhwysfawr a chytbwys o'r ddarpariaeth sy'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad ysgol yn y tymor byr. Er hynny, mae'r ansicrwydd ar lefel reolaethol yr ysgol yn parhau ac yn amharu ar y gallu i nodi a mynd i'r afael ag agweddau lle mae angen gwelliant.

Mae gan bob aelod staff ddisgrifiad swydd penodol sy'n sicrhau bod pob un yn deall eu rôl o ran gweithredu cynlluniau'r ysgol.

Cymerwyd camau priodol i gryfhau cyfraniad y corff llywodraethol o ran pennu blaenoriaethau ysgol gyfan. Er hynny, nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigonol o ba mor dda yw safonau ac ansawdd ar draws yr ysgol, yn enwedig o ran tueddiadau data a chymariaethau ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, nid ydynt yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'n hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion yn unol â dyheadau Iaith Pawb. Trwy gynnal clwb brecwast, mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a chymdeithasol. Mae bwriadau priodol wedi eu nodi ar gyfer codi safonau llythrennedd.

Gwella ansawdd: Da

Mae rhaglen briodol yn ei lle ar gyfer monitro pynciau ac agweddau ysgol gyfan dros gyfnod o ddwy flynedd, sy'n rhan o strategaeth hunan arfarnu addas ar gyfer y tymor hwy.

Mae'r trefniadau hunan arfarnu yn cynnwys arsylwadau dosbarth yn flynyddol i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol a holiaduron i gasglu safbwyntiau'r rhieni a disgyblion am fywyd a gwaith yr ysgol. Nid oes digon o fanyldeb yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol a phrin yw'r achosion o nodi agweddau ar gyfer gwelliant neu ddatblygiad pellach

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi bwriadau priodol ac yn cynnwys camau a therfynau amser addas, er nad oes digon o ddefnydd o feini prawf meintiol i helpu â mesur cynnydd. Mae cyfrifoldebau gweithredu wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff. Mae cynnydd dros y flwyddyn yn erbyn bwriadau'r cynllun datblygu presennol wedi ei adolygu'n fanwl ac yn sail defnyddiol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd priodol i'r staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys cytuno ar nodau a phennu anghenion datblygu priodol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion cyfagos ac wedi cychwyn datblygu rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn y pynciau craidd.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni ac ysgolion eraill. Mae'n chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref a thu hwnt yn gyson ac yn elwa o ymweliadau gan aelodau o'r gymuned leol.

Mae trefniadau bugeiliol gydag Ysgol y Moelwyn yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag Ysgol y Moelwyn ac ysgolion cynradd eraill yr ardal i baratoi adnoddau a sicrhau cysondeb yn yr asesiadau o waith disgyblion. Mae'r ysgol yn croesawu disgyblion o Ysgol y Moelwyn ar brofiad gwaith yn rheolaidd.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r awdurdod leol a sefydliadau hyfforddi athrawon, ac mae'r ysgol yn darparu lleoliadau profiad gwaithi fyfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o arbenigeddau staff a chymorthyddion dosbarth ac mae ganddi ddigon o adnoddau dysgu. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Bu'r ysgol mewn dyled ariannol sylweddol dros gyfnod ac mae'n wynebu sefyllfa o gwtogi pellach ar y lefel staffio ar gyfer mis Medi. Mae arbedion diweddar wedi arwain at gyfran fach o gyllid wrth gefn.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Holiaduron dysgwyr

Mae'r dysgwyr i gyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac yn derbyn digon o gymorth gan athrawon a staff arall. Mae bron y cyfan o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Fodd bynnag, mae traean o'r bechgyn yn nodi nad oes digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio a'u bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gofidio. Lleiafrif o'r disgyblion sy'n teimlo bod ymddygiad yn dda yn y gwersi, ac mae hanner y disgyblion yn nodi nad yw ymddygiad yn dda ar adegau egwyl a chinio.

Holiaduron rhieni/gofalwyr

Derbyniwyd 14 o ymatebion i'r holiadur. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn. Mae'r rhieni/gofalwyr i gyd yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd. Mae rhieni/gofalwyr hefyd yn nodi bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bod ymddygiad ac ansawdd yr addysgu yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am gynnydd eu plant, yn deall trefn gwyno'r ysgol ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn neu fynegi gofid am unrhyw fater. Mae bron y cyfan o'r rhieni yn teimlo bod yr ysgol yn darparu cymorth priodol i anghenion penodol dysgwyr, bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg ac â pharch a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Iolo Dafydd	Arolygydd Cofnodol
Huw Watkins	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Marc Lloyd Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Iwan Morgan (Pennaeth rhan amser dros dro)	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11